

Panel Ymgynghorol yr Iaith Gymraeg

Welsh Language Advisory Panel

2 Mai 2019 am 13:30

Ystafell Gynadledda'r Uned Gwasanaethau Democrataidd, Neuadd y Sir,
Caerfyrddin / Democratic Services' Unit Committee Room, County Hall, Carmarthen

COFNODION A PHWYNTIAU GWEITHREDU

Yn bresennol:

Cyng. Peter Hughes-Griffiths	PHG	Plaid Cymru (Cadeirydd)
Cyng. Edward Thomas	ET	Annibynnol (Is-gadeirydd)
Cyng. Alun Lenny	AL	Plaid Cymru
Cyng. Dorian Williams	DW	Plaid Cymru
Cyng. Sue Allen	SA	Annibynnol
Cyng. Joseph Davies	JD	Annibynnol
Cyng. Carys Jones	CJ	Plaid Cymru
Carys Edwards	CE	Swyddog Hybu Comisiynydd y Gymraeg
Swyddogion		
Helen Morgan	HM	Rheolwr Datblygu Economaidd
Llinos Evans	LIE	Swyddog Polisi a Phartneriaeth
Myfanwy Jones	MJ	Swyddog Polisi'r Iaith Gymraeg
Gwyneth Ayers	GA	Rheolwr Polisi a Phartneriaethau
Neil Edwards	NE	Pennaeth Gwasanaethau Integredig

Rhif eitem	Testun a phwyntiau gweithredu:	Yn gyfrifol:
1.	Croeso ac Ymddiheuriadau Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cynghorydd Peter Hughes-Griffiths. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorydd Tina Higgins, Cynghorydd Rob James a Wendy Walters.	
2.	Cofnodion y cyfarfod diwethaf Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod.	
3.	Adrodd ar gynnydd y Strategaeth Hybu – Y Gymraeg ac Adfywio	

Croesawyd Helen Morgan a Gwyneth Ayres i'r cyfarfod i adrodd ar gynnydd y gwaith sy'n berthnasol i hyrwyddo'r Gymraeg yn y maes Adfywio. Gan gyfeirio at y Cynllun Gweithredu a ddosbarthwyd o flaen llaw, rhoddwyd sylw i brosiectau fel 'Sgiliau a thalent', 'Y Fargen', 'Yr Egin' ac 'Arfor'.

Arfor – Prosiect newydd a ariennir gan Lywodraeth Cymru y mae'r Cyngor Sir yn cydweithio arni gyda Gwynedd, Sir Fôn a Cheredigion, gyda'r bwriad o ddatblygu pecyn a fydd yn creu gwaith a hyrwyddo'r iaith. Gwynedd yw'r sir sy'n gweinyddu'r prosiect ac mae hanner miliwn yr un i wario gan y siroedd ar brosiectau. Bydd Sir Gâr yn canolbwyntio ar y sector creadigol a'r sector bwyd.

Mi fyddai'r prosiect wedi ei lansio erbyn diwedd Ebrill ond o achos yr etholiadau Ewropeaidd, does dim modd lansio tan fis Mehefin. O fewn y cyngor, mae'r swyddogion *Leader* yn arwain. Bydd gwahoddiad am geisiadau grant ar gyfer y ddau sector ar ddechrau Mehefin gan obeithio creu 10 swydd drwy'r cyllid. Ond bydd yna gydweithio gyda Llywodraeth i sicrhau mai peilot ar gyfer rhywbeth mwy fydd Arfor, ac mae yna ychydig o arian yn cael ei gadw naill ochr i edrych ar werthuso rhai o'r prosiectau sy'n cael eu hariannu i weld pa brosiectau sy'n gweithio o safbwynt hyrwyddo'r Gymraeg gan ddatblygu'r economi'r un pryd. Y bwriad yw datblygu strategaeth wedyn ar gyfer y 4 sir.

Y broses yw y bydd ceisiadau yn dod i mewn i'r grŵp *Leader* ac yna'n cael eu trosglwyddo i'r Grŵp cefn gwlad. Yna bydd yr Arweinydd yn penderfynu'n derfynol i ble gaiff y cyllid ei ddyrannu. Mae swyddogion y siroedd hefyd yn cwrdd pob chwarter i rannu arfer dda.

Gofynnwyd am eglurder ynglŷn a'r cyllid a fydd ar gael ar gyfer y sector fwyd. Roedd y Pwyllgor cynllunio (yng nghyd-destun yr LDP newydd) yn trafod dileu'r rhwystrau sydd yn y broses gynllunio i ddatblygu busnesau clos ffarm. Holwyd a fyddai busnesau o'r math hwn yn gweddu cronfa gyllid Arfor.

Cadarnhawyd y byddai'r gronfa yn cyd-fynd gyda micro-fasnachau fel hyn.

Holwyd sut y rhagwelir y bydd modd ehangu datblygiadau'r *Egin* i gymunedau gwledig. Eglurwyd y bydd y grantiau'n rhai cyfalaf a refeniw ac felly bydd modd datblygu prosiectau llai o fewn cymunedau sy'n ymwneud gyda'r diwydiannau creadigol ond ddim o anghenraid yn gysylltiedig gyda'r *Egin*.

Tynnwyd sylw at yr angen i hybu'r Gymraeg mewn meysydd technolegol a hynny mewn partneriaeth ag ysgolion a cholegau. Nodwyd bod yna brosiectau ar waith sy'n hybu sgiliau Cymraeg a thechnoleg ar y cyd, ond y byddai'r maes technolegol a pheirianyddol yn gweddu'r prosiect *Sgiliau a Thalent* yn well nag *Arfor*.

Holwyd am eglurder ar y broses o farchnata'r gronfa ac eglurwyd y bydd y wybodaeth yn cael ei ledaenu drwy hysbysebu ar ein gwefan, drwy rwydweithiau *Leader* ac yn y wasg.

Holwyd hefyd pa ganran o'r gronfa sy'n mynd i'r ochr strategol? Atebwyd mai tua £60,000 a hynny wedi ei gadw'n isel dros ben er mwyn i'r rhan fwyaf o'r arian fynd allan ar ffurf grantiau. Nodwyd bod y costau gweinyddol yn cael eu cadw'n isel iawn hefyd.

Nodwyd bwysigrwydd y gwaith y mae'r swyddogion yn ei wneud gyda busnesau a'r Gymraeg. Mae'r Cyngor yn cydlynu grŵp o swyddogion cynllunio, adfywio,

	<p>polisi, swyddogion Byd Busnes a'r Comisiynydd er mwyn cydweithio i ddwyn perswâd ar fusnesau i weithredu'n ddwyieithog.</p> <p>Nodwyd y byddai modd i'r Fforwm Cefn Gwlad hefyd hyrwyddo grantiau'r cychwynnol y Llywodraeth i ffermwyr ifanc.</p> <p>Nodwyd y byddai modd gwneud cysylltiad rhwng Cronfa cymunedol melinau gwynt Brechfa ac Arfor ac y byddai modd cyfathrebu gydag Antur Teifi i weld os oes modd cydlynu rhywfaint o'r gwaith i gefnogi ffermwyr ifanc yn benodol.</p>	<p>GA</p> <p>GA a HM</p>
<p>4.</p>	<p>Adroddiad Ymchwil ar y Gymraeg ym myd busnes</p> <p>Estynnwyd croeso cynnes i Carys Edwards o Swyddfa'r Comisiynydd i'r cyfarfod i gyflwyno'r Adroddiad Ymchwil ar y Gymraeg ym myd busnes. Rhannwyd copïau o'r adroddiad ymchwil.</p> <p>Eglurwyd mai yn nhîm hybu'r Comisiynydd Gymraeg y mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud – sef yr adran sy'n delio gyda'r sector anstatudol. Ei rôl yw i weithio gyda busnesau canolig a mawr gan gynnig cymorth, cyngor ac arweiniad un-i-un i fusnesau. Tîm Cymraeg byd busnes (yn y mentrau iaith) yn gweithio gyda busnesau bach y stryd fawr. Mae'r Tîm hybu hefyd yn gweithio gyda'r sector wirfoddol, ac yn darparu hyfforddiant 'Rhoi dwyieithrwydd ar waith' i'r sector wirfoddol.</p> <p>Yr Ymchwil: Canfuwyd fod busnesau'n gweld gwerth y Gymraeg ar gyfer eu busnes ar y cyfan.</p> <p>Nodwyd nad oes gorfodaeth ar fusnesau i weithio'n ddwyieithog felly bod casglu tystiolaeth ar gyfer dwyn perswâd a gwerthu'r achos busnes yn holl bwysig.</p> <p>Dangoswyd fideo i ddangos fod y Gymraeg yn iaith fyw yng Nghymru, wedi ei anelu at fusnesau mawr gyda'u pencadlysoedd y tu allan i Gymru.</p> <p>Byddai'n dda creu mwy o fideos tebyg, er enghraifft yn sir Gâr.</p> <p>Roedd canfod barn y cwsmer yn ddefnyddiol iawn hefyd wrth ddwyn perswâd ar fusnesau mawrion.</p> <p>Gwnaed ymdrech hefyd i gael argraff o ba gymorth sydd ei angen. Nid oedd dim amlwg yn dod allan. Yn bendant, mae angen hwb cyson ar y busnesau yn hytrach nac un gweithgarwch benodol. Mae angen i'r Comisiynydd ddatblygu arfer dda i ddwyn perswâd. Cyhoeddwyd eisoes 1) Canllaw ar ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfryngau cymdeithasol, 2) Canllawiau ar ddylunio'r ddwyieithog, 3) Cyngor ar sut i wneud cais am grant neu gontract o gyrff sy'n ddarostyngedig i'r Safonau. Darperir hefyd wasanaeth prawf ddarllen am ddim i hybu defnydd busnesau o'r Gymraeg, hyd at fil o eiriau.</p> <p>Ailadroddwyd swyddogaeth y Swyddogion Byd Busnes sy'n cael eu hariannu gan y Llywodraeth a'u cyflogi gan Mentrau Iaith Cymru i gefnogi busnesau'r stryd fawr yn lleol.</p>	

	<p>Canmolwyd yr Adroddiad ymchwil. Nodwyd bod Canolfan Santes Catrin yn enghraifft lle mae'r rheolwr wedi dod i ddeall fod budd masnachol i'r Gymraeg. Croesawodd CE wybodaeth am gysylltiadau lleol.</p> <p>Nodwyd ei fod yn anodd cychwyn sgwrs yn Gymraeg yng Nghaerfyrddin o gymharu a Chaernarfon a pwysleiswyd pwysigrwydd defnydd cyson o lanyards Cymraeg. Eglurwyd bod yn rhaid rhoi cefnogaeth leol i'r busnesau yn dilyn cyswllt y Comisiynydd gyda rheolwyr er mwyn sicrhau effaith. Nodwyd hefyd y byddai'n syniad cydweithio gyda phrifysgolion i dargedu myfyrwyr cyfrwng Cymraeg i wisgo lanyards tra'n gweithio.</p> <p>Holwyd os oedd modd cael ffigurau economaidd, moel am werth y Gymraeg. Eglurwyd fod bwriad cynnal prosiectau penodol gydag ambell i fusnes mawr i chwilio am waelodlin a mesur chwe mis o wahaniaeth. Nodwyd bod Coop wedi gwneud ymgyrch i hybu cynnyrch lleol a defnyddio'r Gymraeg ar becynnau bwyd ac arddangosfeydd. Nododd y cwmni fod pobl sy'n prynu'r cynnyrch Cymraeg yn ymweld yn amlach ac yn gwario mwy.</p> <p>Holwyd a oedd sgôp ariannu ymchwil PHD o fewn y maes economi i fesur gwerth ariannol y Gymraeg?</p> <p>Nodwyd pwysigrwydd i'r Comisiynydd ddod mewn yn gynt yn y broses, yn y cyfnod cyn-gynllunio o'r broses cynllunio. Gwneir hyn yn Sir Gar drwy'r grŵp o swyddogion. Awgrymwyd bod y gwaith hwn yn cael ei nodi yn yr adroddiadau cynllunio.</p>	LLE
5.	<p>Gwasanaethau bobl hŷn – Neil Edwards</p> <p>Cafwyd crynodeb o beth sy'n digwydd ar hyn o bryd o safbwynt darparu gwasanaethau yn Gymraeg o fewn y Gwasanaethau Integredig sy'n cynnwys Nyrsio cymunedol, gofal lliniarol yn ogystal â gwasanaethau gofal cymdeithasol yr Awdurdod Lleol. Eglurwyd cyd-destun y gwaith a <i>Fframwaith Strategol Mwy na geiriau</i>, yn cynnwys 'y Cynnig rhagweithiol'.</p> <p>Eglurwyd bod arolygon diweddar ar fodlonrwydd defnyddwyr gwasanaeth yn ymwneud gyda lefelau staffio Cymraeg a mynediad i wasanaethau Cymraeg yn nodi fod 45 allan o 118 aelod o staff y Gwasanaethau Integredig ar lefel 3 neu uwch. Nododd 91% o ddefnyddwyr sy'n oedolion a 93% o ofalwyr eu bod yn medru cyfathrebu gyda'r gwasanaeth yn ei ddewis iaith.</p> <p>O ran data staff contract, mae'r data'n awgrymu fod lefelau iaith staff y cartrefi gofal a gofal cartref yn tueddi i adlewyrchu canran y boblogaeth yn gyffredinol. Ymddengys bod data Cartrefi nyrsio yn llai cadarnhaol.</p> <p>Mae prosiect peilot yn cael ei weithredu ar hyn o bryd i geisio recriwtio Gweithwyr Gofal Cymdeithasol ar lefel 4, ar gyfer ardaloedd daearyddol penodol. Y bwriad yw cydweithio gyda'r Coleg Cymraeg a defnyddio gwefannau Cymraeg fel lleol.com. Yn ogystal, bydd modd cefnogi staff i godi lefel eu sgiliau Cymraeg.</p> <p>Nodwyd nad ydy'r adroddiad 'Social prescribing' yn talu sylw i gyfleoedd o ddefnyddio'r Gymraeg yn y rhaglenni hyn. Bydd NE yn sicrhau bod hyn yn</p>	NE

	<p>newid. Yn Llandeilo, mae'r grŵp dementia yn sicrhau cynrychiolaeth Cymraeg gan fod y Fenter yn eistedd ar y grŵp.</p> <p>Mynegwyd pryder fod y 'Cynnig rhagweithiol' yn dal i fod ychydig 'ar hap'. Doedd y cynnig ddim bob amser yn cael ei wneud o ran gofalwyr. Cytunwyd bod angen sicrhau ei fod yn cael ei ddarparu gan ei fod yn ofyniad statudol ers 2016 drwy'r Ddeddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Cytunwyd bod gwaith yn dal i'w wneud i baru staff a rhai sydd angen darpariaeth Gymraeg, yn enwedig gydag asiantaethau.</p> <p>Pwysleisiwyd yr angen clinigol am ddarpariaeth Gymraeg i blant bach yn ogystal â diolchwyd i NE am ei gyfraniad.</p> <p>Nododd LIE bod Arweinwyr Iaith newydd yn yr Adran a'u bod yn cytuno ar gynlluniau gweithredu unigol gyda'r Uned Bolisi i wella'r ddarpariaeth Gymraeg yn eu hunedau.</p> <p>Nodwyd hefyd ein bod yn cydweithio gyda Rhagoriaith ar ddarparu cyrsiau dwys Sylfaen a Chanolradd wedi eu teilwra ar gyfer y sector gofal o fewn y misoedd nesaf.</p>	NE
6.	<p>Diweddariad</p> <p>Nodwyd y diweddariad o ran Comisiynydd y Gymraeg newydd. Nododd y Cyng. PHG ei fod yn cwrdd gydag Aled Roberts ar ddechrau Awst.</p>	
7.	<p>Unrhyw fater arall</p> <p>Nodwyd bod cwyn wedi ei wneud i'r Comisiynydd am ddiffyg darpariaeth Gymraeg yng Ngorsaf trên Caerfyrddin. Mae'r gwyn i 'Trafnidiaeth Cymru' a gomisiynir gan Lywodraeth Cymru.</p> <p>Nodwyd hefyd bod profiad negyddol o ran y Gymraeg wedi ei gael gan Linell gymorth Llesiant Delta.</p> <p>Cytunwyd y byddai'r Panel yn derbyn diweddariad ar y cwyn mewnol ac y byddai'r Tîm Polisi yn gofyn am ddiweddariad wrth Swyddfa'r Comisiynydd o ran 'Trafnidiaeth Cymru'.</p> <p>Nodwyd y byddai'n dda petai'r Panel yn edrych yn fanylach ar hunan reoleiddio o safbwynt Safonau'r Gymraeg. Nodwyd bod hwn yn flaenoriaeth i'r Comisiynydd eleni. Cytunwyd ystyried posibilïadau yn y cyfarfod nesaf.</p>	<p>MJ a LLE</p> <p>MJ a LLE</p>
8.	<p>Dyddiad y cyfarfod nesaf</p> <ul style="list-style-type: none"> 18 Gorffennaf 2019 am 13:30 (Canolfan yr Atom, Caerfyrddin) 	